

Diogelu ar gyfer y dyfodol?

Cynaliadwyedd ariannol yn Awdurdod Tân ac
Achub De Cymru

Ebrill 2026

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio adrodd o dan Adran 15(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei aildefnyddio, rhaid i'ch aildefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	9
Atodiadau	10
Ynglŷn â'n gwaith	11

Ciplun archwiliad

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

- 1 Fe wnaethom edrych ar sut mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynlluniau hynny, a sut mae gwybodaeth ariannol yn cael ei adrodd i Gomisiynwyr i gefnogi craffu a goruchwyllo cynaliadwyedd ariannol.
- 2 Nid ydym yn edrych ar reolaeth ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi'u gwneud neu sy'n bwriadu eu gwneud.
- 3 Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu sicrwydd ac i gefnogi gwelliant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithio i wella ei gynaliadwyedd yn y tymor canolig i'r tymor hir. Rydym yn cydnabod bod rhai pethau sy'n effeithio ar hyn y tu allan i reolaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys lefel y cyllid grant y mae'n ei dderbyn a digwyddiadau byd-eang fel pandemig covid-19. Mae'r cyd-destun anodd yn golygu bod cynllunio ar gyfer gwahanol senarios a bod yn glir ar yr opsiynau sydd ar gael yn bwysig. Mae hefyd yn dangos nad yw bob amser yn bosibl cynllunio'n fanwl yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Pam mae hyn yn bwysig

- 4 Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae wedi gwneud ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn rhoi pwysau ar yr Awdurdod i gydbwyso'r hyn y mae ei eisiau neu sydd angen ei wario yn erbyn cyllid sy'n parhau i fod yn her. Mae cael y cydbwysedd hwn yn iawn yn her sylweddol ac mae'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod gydbwyso gwahanol ffactorau er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod cynllunio i gyflawni cynaliadwyedd yn allweddol ac yn cefnogi'r Awdurdod i ddangos gwerth am arian.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 5 Mae'r Awdurdod yn mynd trwy gyfnod sylweddol o drawsnewid a newid yn dilyn ymyrraeth y Gweinidog ym mis Chwefror 2024. Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod strategaeth ariannol i gefnogi ei amcanion strategol a chyflawni cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y dyfodol.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 6 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i'r Awdurdod. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar yr angen i wella ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol i lywio cynllunio strategol. Mae'r ail yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig cynaliadwy sy'n cyd-fynd â'i hamcanion corfforaethol. Mae'r trydydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod monitro ac adrodd ariannol yn cefnogi goruchwyliaeth a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Ein canfyddiadau

Nid yw dealltwriaeth yr Awdurdod o'i sefyllfa ariannol yn ei gefnogi i gynllunio'n effeithiol

- 7 Er bod yr Awdurdod yn ymwybodol o'i bwysau gwariant yn ystod y flwyddyn, nid yw'n deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig i hirdymor yn llawn. Nid yw'r Awdurdod wedi nodi ei gynlluniau ariannol dros sawl blwyddyn i'w helpu i ddeall unrhyw fylchau cyllidebol y gallai eu hwynebu. Nid yw hefyd wedi meincnodi ei rhagdybiaethau ariannol gyda sefydliadau eraill, nac wedi ymgymryd â chynllunio senarios i helpu i lywio gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, nid oes ganddo ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol.
- 8 Mae gwybodaeth fanwl o bwysau cyllido a risgiau ariannol yn bwysig i helpu i ddatblygu strategaeth ariannol wybodus sy'n gallu mynd i'r afael â phwysau cyllidebol presennol ac yn y dyfodol.
- 9 Nid yw'r Awdurdod wedi cynllunio sut y bydd yn defnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan greiddiol o gynllunio ariannol. Er enghraifft, gan nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub (FRA) yn derbyn unrhyw gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, mae cronfeydd wrth gefn yn ffordd allweddol iddo ariannu prosiectau cyfalaf. Mae hyn yn golygu y gall cynllunio sut y bydd cronfeydd wrth gefn yn cefnogi ei gynlluniau ariannol helpu'r Awdurdod i gyflawni prosiectau pwysig. Mae gan yr Awdurdod lefel ganolrifol y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (FRAs). Roedd gan yr Awdurdod yr hyn sy'n cyfateb i 18.3% o'i gost net o wasanaethau mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy nad ydynt wedi'u cyfyngu gan y gyfraith ar ddiwedd 2024-25.¹

¹ Rydym yn cyhoeddi'r data hwn fel rhan o'n teclyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol. Gall ein diffiniad o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir gan wahanol gyrff.

- 10 Mae penderfynu beth mae'r Awdurdod yn ei feddwl yw'r lefel gywir o gronfeydd wrth gefn, sut y bydd yn cyrraedd y lefel honno, a sut y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol yn bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol.
- 11 Mae'r Awdurdod wedi defnyddio defnydd heb ei gynllunio o'i gronfeydd wrth gefn i ariannu gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gryfhau ei lywodraethu a'i berfformiad. Mae'r Awdurdod yn cael ei newid yn sylweddol oherwydd ymyrraeth y Gweinidog ym mis Chwefror 2024 i ddisodli'r Awdurdod gyda Chomisiynwyr. Mae hyn wedi arwain at lawer o weithgarwch i weithredu ar ystod o argymhellion a wnaed i'r Awdurdod yn dilyn adolygiadau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan Archwilio Cymru, adolygiad diwylliant annibynnol, ac Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Er gwaethaf hyn, mae'r Awdurdod wedi parhau i gyllidebu ar sail 'busnes fel arfer' gan arwain at ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn. Gan fod cronfeydd wrth gefn yn gyfyngedig, mae'r Awdurdod yn derbyn nad yw'r dull hwn yn gynaliadwy.

Nid oes gan yr Awdurdod strategaeth ariannol i gefnogi ei amcanion corfforaethol

- 12 Nid yw'r Awdurdod wedi datblygu strategaeth ariannol gynaliadwy eto. Er bod yr Awdurdod wedi nodi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer ei gynllunio ariannol, mae manylion ei gynlluniau ariannol yn aneglur ac nid ydynt yn cael eu deall yn eang o fewn y sefydliad. Nid yw'r Awdurdod hefyd wedi cysylltu ei gynllunio ariannol â'i gynlluniau corfforaethol. Nid yw ei weithgaredd gwella a thrawsnewid wedi'i gynllunio wedi'i gostio'n llawn nac wedi'i gyllidebu'n glir ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu nad oes ganddo ddealltwriaeth glir o sut y bydd yn gwneud defnydd cynaliadwy o'i adnoddau i gyflawni ei amcanion corfforaethol.

- 13 Mae strategaeth ariannol glir, gwybodus a chytunedig yn allweddol i sefydlu a chyfathrebu sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r pwysau cyllido yn y dyfodol y mae'n credu y bydd yn eu hwynebu. Yn enwedig sut y bydd yn cwrdd ag unrhyw fylchau cyllido yn y tymor byr, canolig a hir. Gall hefyd helpu'r Awdurdod i ddeall effaith bosibl ei sefyllfa ariannol ar ei amcanion llesiant a'i ddyletswyddau cyfreithiol nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar ei gyllid ond nid yw'n nodi beth mae hyn yn ei olygu i gyflawni ei amcanion corfforaethol

- 14 Mae'r Awdurdod yn darparu adroddiadau ariannol rheolaidd i Gomisiynwyr, ond nid yw'r rhain yn nodi sefyllfa ariannol strategol yr Awdurdod. Mae adroddiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar wariant o ddydd i ddydd. Nid ydynt yn esbonio beth mae amrywiadau gwariant i'r gyllideb yn ei olygu i strategaeth gorfforaethol yr Awdurdod a chyflawni ei amcanion. Nid yw'r adroddiadau ychwaith yn esbonio sut mae gwariant yn cefnogi blaenoriaethau'r Awdurdod. Mae hyn yn lleihau i ba raddau y gall adroddiadau helpu uwch arweinwyr i gynnal goruchwyliaeth o gynaliadwyedd ariannol ac i wneud penderfyniadau gwybodus.

Argymhellion

A1 Dylai'r Awdurdod wella ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol i lywio'r broses o ddatblygu strategaeth ariannol gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys costio ei weithgaredd trawsnewid arfaethedig a meincnodi rhagdybiaethau ariannol gyda sefydliadau eraill. (**Paragraffau 7 i 11**).

A2 Dylai'r Awdurdod ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig cynaliadwy i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion corfforaethol a'i gyfrifoldebau statudol. (**Paragraffau 12 i 13**).

A3 Er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol ac i gefnogi gwneud penderfyniadau, dylai'r Awdurdod adrodd yn rheolaidd ar oblygiadau ei sefyllfa ariannol ar gyfer cyflawni ei amcanion corfforaethol. (**paragraff 14**).

Atodiadau

Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar sut mae'r Awdurdod yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu ei gynlluniau, ac yna sut mae'n adrodd i Gomisiynwyr ar ei gyllid. Fe wnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith rhwng Ionawr a Chwefror 2026.

Nid ydym yn edrych ar reolaeth ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi'u gwneud neu sy'n bwriadu eu gwneud.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe wnaethom ddod i'n casgliadau ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod trwy ateb tri chwestiwn allweddol. Yn gyntaf, gofynnnon ni a oes gan yr Awdurdod gynllun clir a hirdymor ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol. Yn ail, edrychwyd ar a yw'r Awdurdod yn gwybod y sefyllfa ariannol y mae ynddi ac wedi defnyddio ei wybodaeth i lunio ei strategaeth. Yn drydydd, gofynnnon ni a yw adroddiadau ariannol yr Awdurdod a wnaed i gynghorwyr yn eu helpu i oruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol.

Meini Prawf

Rydym yn defnyddio'r meini prawf archwilio i'n helpu i ateb ein cwestiynau ar drefniadau'r Awdurdod. Maent yn ein helpu i ddeall sut ddylai trefniadau neu allai edrych fel mewn cyd-destun. Mae gwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a'n gwybodaeth gronol wedi siapio eu datblygiad.

Dulliau

Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau dogfennau a chyfweliadau ag uwch swyddogion a'r Comisiynydd Cyllid Arweiniol. Gwnaethom gwblhau'r gwaith hwn ochr yn ochr â'n harchwiliad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus. Fe wnaethom hefyd dynnu ar ganfyddiadau o'r gwaith hwn, lle bo hynny'n berthnasol.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru